

Arolygiad Anableddau Dysgu (dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Gwasanaeth preswyl y GIG
Rhif cyfeirnod: 16010

2 Mehefin 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
5.	Y camau nesaf	22
6.	Methodoleg	23
	Atodiad A.....	25

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o wasanaeth preswyl anabledau dysgu y GIG ar 2 Mehefin 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiodd AGIC ar y modd roedd yr uned yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anabledau dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae gwasanaeth preswyl y GIG a arolygwyd yn darparu gofal, triniaeth a chymorth 24 awr i bobl ag anabledd dysgu ac yn rhan o naw gwasanaeth anabledd dysgu o'r fath a weithredir ac a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i uchafswm o bump o bobl ar unrhyw un adeg; mae'r cleifion o rywiau cymysg weithiau. Roedd dwy fenyw a thri gwryw yn byw ar y safle ar adeg ein harolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys rheolwr (sy'n nyrs gofrestrdig), dirprwy reolwr, nifer o nyrsys cofrestrdig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Fe'u cefnogir i ofalu am gleifion gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill o dro i dro, yn unol â'u hanghenion a nodwyd ac sy'n newid.

Mae'r holl gleifion wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu lleol.

3. Crynodeb

Canfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i redeg gan dîm o staff parhaol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Hefyd, dangosodd trafodaethau a gafwyd gydag aelodau o'r tîm staff a rheolwr yr uned eu bod yn ymwybodol o broblemau yn y gwasanaeth yr oedd angen eu datrys a bod ganddynt ymrwymiad eglur i fynd i'r afael â'r rheini. Roedd hyn er mwyn gwella safon y gofal a'r cymorth i gleifion.

Roedd yn amlwg bod staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn gwneud ymdrechion sylweddol i ddarparu gofal diogel, trugarog ac effeithiol i gleifion. Roedd hyn er gwaethaf gorfod gweithio mwy nag oriau eu contractau o ganlyniad i swyddi gwag a salwch staff na ragwelwyd.

Dyma'r hyn a ganfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Disgrifiodd y staff yn fanwl iawn sut yr oeddent wedi casglu gwybodaeth am gleifion ar y pwynt derbyn ac ers hynny, i'w helpu i gynorthwyo pobl yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.
- Canfuwyd gennym fod y staff yn trin cleifion gyda pharch, sensitifrwydd a charedigrwydd; roedd unigolion yn cael eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis. Gwelsom hefyd nifer o achosion lle'r oedd staff yn treulio amser gydag unigolion at y diben o sgwrsio, cynorthwyo a darparu cymorth i yfed. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn rhoi pwyslais ar dreulio amser gyda'r cleifion i wrando'n ymarferol arnynt ac ymateb i'w hanghenion.
- Roeddem yn gallu cadarnhau bod y trefniadau ymweld yn y gwasanaeth yn galluogi'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd yn unol â'u dymuniadau.
- Roedd cegin y gallai cleifion ei defnyddio (gyda chymorth y staff) i baratoi diodydd a chael mynediad at fyrbrydau a phrydau trwy gydol y dydd a min nos. Roedd pryddau'r cleifion yn cael eu paratoi gan aelodau'r tîm staff yn yr un fan honno. O edrych ar gynnwys yr oergell a'r cypyrddau, roedd yn ymddangos bod digon o wahanol fwyd ar gael

Dyma'r hyn yr oedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ei wella:

- Hysbyswyd y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod delweddau mewnol o gamerâu teledu cylch cyfyng yn y gwasanaeth wedi eu cuddio oddi wrth unrhyw unigolion heb awdurdod

- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch. Roedd hyn er mwyn darparu amgylchedd byw diogel i gleifion ac amgylchedd gweithio diogel i staff.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar waith i lywio a chynorthwyo'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r Safonau sy'n datgan bod trefniadau o'r fath yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Roedd angen darparu hyfforddiant gorfodol a phenodol i gleifion parhaus i'r holl staff. Mae hyn er mwyn datblygu gweithlu diogel â sgiliau priodol.

Mae meysydd gwasanaeth eraill y nodwyd y dylid eu gwella i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Ceisiodd y tîm arolygu ofyn am safbwyntiau'r cleifion ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn y gwasanaeth trwy sgysiau wyneb i wyneb. Yn anffodus fodd bynnag, dim ond sylwadau llafar cyfyngedig y gallem ni eu cael gan bobl sy'n derbyn gofal oherwydd eu hanghenion cyfathrebu cymhleth a nodwyd.

Nid oedd unrhyw aelodau o deuluoedd yn bresennol ar ddiwrnod ein hymweliad.

Cadw'n iach

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofawyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y cleifion yn cael eu cynorthwyo i gadw'n iach. Mae hyn oherwydd bod pob unigolyn wedi ei gofrestru gyda meddyg teulu lleol. Canfuwyd gennym hefyd bod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (fel therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd ac iaith) yn cael eu gwneud ar ran cleifion ar gyfer cyngor a thriniaeth, yn ôl y gofyn. O edrych ar sampl o gofnodion cleifion, fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd rhai ymweliadau neu driniaeth ddeintyddol a phodiatreg wedi digwydd. O'r herwydd, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd gan AGIC. Roedd hyn yn golygu bod gan y bwrdd saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC am unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd, i roi sylw i'r materion a ddisgrifiwyd. Ers hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi ymateb i AGIC ac mae ei gynnwys wedi rhoi sicrwydd digonol i ni bod camau prydlon a phriodol wedi eu cymryd.

Cadarnhaodd sgysiau gyda'r staff a'n harsylwadau ein hunain ar ddiwrnod yr arolygiad bod cleifion yn cael eu hannog i gyflawni rhai tasgai o gwmpas y cartref fel golchi eu dillad a pharatoi diodydd poeth gyda chymorth y staff. Roedd hyn yn cyd-fynd â'u dymuniadau a'u galluoedd.

Edrychwyd hefyd ar gofnodion dau o gleifion i ddarganfod pa weithgareddau cymdeithasol oedd ar gael i'r unigolion dan sylw. Er bod rhai cynlluniau ysgrifenedig ar waith, nid oedd y cofnodion yn rhoi gwybodaeth eglur i ni pa un

a oedd gweithgareddau a gynlluniwyd wedi digwydd a/neu pa un a oedd pob claf wedi mwynhau neu wedi elwa o'r profiad. O sgwrsio â'r staff, roedd yn ymddangos hefyd bod dryswch o ran amllder rhai o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer un claf. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd lles y cleifion yn cael ei gefnogi fel sy'n ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod rhaglenni gweithgareddau cymdeithasol wedi eu cynllunio a'u strwythuro yn cael eu dilyn fel ffordd o gynorthwyo pobl i fod yn iach ac yn hapus ac i fyw bywyd gweithgar.

Nododd sgwrs gwyno gydag un o'r cleifion a oedd yn paratoi i fynd allan yng nghwmni aelod o staff bod yr unigolyn yn edrych ymlaen at ei thaith siopa.

Pan ofynnwyd a oedd pob un o'r cleifion sy'n byw yn y gwasanaeth preswyl wedi derbyn eu harchwiliad iechyd blynyddol gan feddyg teulu, fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth yn ffeiliau'r cleifion i ddynodi hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl gleifion wedi derbyn eu harchwiliadau blynyddol gan feddyg teulu.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1-Gofal Gydag Urddas)

Disgrifiodd y staff yn fanwl iawn sut yr oeddent wedi casglu gwybodaeth am y cleifion ar y pwynt derbyn ac ers hynny, i'w helpu i gynorthwyo pobl yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Canfuwyd gennym fod y staff yn trin y cleifion gyda pharch, sensitifrwydd a charedigrwydd; roedd yr unigolion yn cael eu hannerch gan ddefnyddio eu dewis o enw. Gwelsom hefyd nifer o achosion lle'r oedd y staff yn treulio amser gydag unigolion at ddiben sgwrsio, cynorthwyo ac i roi cymorth i yfed. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn rhoi pwyslais ar dreulio amser gyda chleifion i wrando arnynt yn ymarferol ac ymateb i'w hanghenion.

Gwelsom fod y staff yn amddiffyn hawliau'r cleifion i breifatrwydd ac urddas. Er enghraifft, gwelsom fod y drysau i ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi ar gau pan roedd y staff yn diwallu anghenion gofal y cleifion.

Canfuwyd gennym hefyd fod anghenion ymataliaeth y cleifion yn cael eu diallu mewn ffordd brydlon; roedd y staff yn darparu cymorth a gofal prydlon.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun a oedd wedi cael ei phersonoli cyn belled â phosibl gyda lluniau, dillad gwely ac eitemau bach o'u dewis.

Fodd bynnag, dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion nad oedd y staff yn defnyddio unrhyw fath o offeryn asesu poen. Byddai hyn wedi helpu i benderfynu a oedd pobl mor gyfforddus a rhydd o boen ag yr oedd eu cyflwr gofal iechyd a'u hamgylchiadau yn ei ganiatáu. Nid oedd yn bosibl cadarnhau felly a oedd lladdwyr poen a roddwyd ar bresgripsiwn yn effeithiol, a pha un a oedd ei angen o hyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad llawn i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod poen cleifion yn cael ei asesu a'i fonitro. Mae hyn fel bod y cleifion yn cael eu helpu i fod mor gyfforddus a rhydd o boen â phosibl.

Gwelsom y gallai delweddau ar y monitor teledu cylch cyfyng ar y safle fod wedi cael eu gweld yn rhwydd gan unigolion heb awdurdod gan nad oedd y monitor wedi ei leoli mewn unrhyw fath o gwpwrdd. Roedd yn bosibl y gallai hyn danseilio preifatrwydd ac urddas cleifion sy'n byw yn y gwasanaeth preswyl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau na all unrhyw unigolion heb awdurdod weld delweddau teledu cylch cyfyng.

<p>Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal. (Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion)</p>

Yn ystod bore ein hymweliad, nid oedd swyddfa'r nyrs ar glo ar adegau pan nad oedd aelod o staff yn bresennol yn y fan honno. Tynnwyd sylw'r person â gofal at y mater felly, gan fod ffeiliau a gwybodaeth glinigol y cleifion yn cael eu cadw yn yr ystafell honno. Roedd hyn er mwyn diogelu gwybodaeth gyfrinachol y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion personol cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir (Safon 5.1)

Canfuwyd gennym fod staff yn bresennol mewn mannau lle'r oedd cleifion yn bresennol. Gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon iawn i unigolion pan roeddent yn galw allan.

Fe'n hysbyswyd hefyd bod y gwasanaeth wedi gwneud trefniadau i aelod o'r tîm staff sefydledig ofalu am glaf ar sail un i un mewn ymateb uniongyrchol i'w anghenion cynyddol gymhleth yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd y defnydd ychwanegol hwn o amser yr aelod o staff wedi arwain at unrhyw gyllid ychwanegol i'r gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am adnoddau a digonedd staff yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

Gofal unigol

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)

Edrychwyd ar ddau (o bump a oedd ar gael) o gofnodion cleifion. Roedd cynnwys y rheini'n dangos enghreifftiau o gydgyssylltu gofal rhwng y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, y tîm aml-ddisgyblaeth a grŵp ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd hyn yn golygu bod pobl berthnasol yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gofal y cleifion yn y presennol a'r dyfodol.

Er i ni weld bod anghenion gofal personol a chymdeithasol y cleifion wedi cael eu hasesu, nid oedd y wybodaeth a gasglwyd bob amser yn arwain at gynlluniau gofal cysylltiedig wedi eu cytuno gan yr unigolyn dan sylw, neu ei deulu/cynrychiolydd. Arweiniodd y mater hwn at welliant y mae ei angen ffurfiol, a gellir gweld manylion hyn o dan y pennawd 'Cadw Cofnodion' yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 Hawliau Pobl)

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu gyda'r nod o sicrhau bod hawliau'r claf yn cael eu hwyluso.

Er enghraifft, dangoswyd o graffu ar gofnodion dau o gleifion bod Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid¹ ar waith a bod y broses gywir wedi cael ei dilyn. Roedd system sefydledig hefyd ar gyfer gwneud cais i drefniadau diogelu gael eu hadnewyddu, yn unol ag anghenion ymddangosol yr unigolion.

Er bod y cofnodion gofal yn dangos bod anghenion gofal y cleifion yn cael eu hasesu, canfuwyd gennym fod ansawdd y cofnodion gofal yn amrywio. Roedd rhai'n gynhwysfawr iawn ac yn dangos yn eglur canlyniad yr asesiad a'r gofal a ddarparwyd. Roedd cofnodion eraill i ni eu gweld yn anghyflawn. Ni allem fod yn sicr bob amser felly bod camau priodol wedi cael eu cymryd ar ôl asesu a monitro cyflyrau'r cleifion. Gellir gweld ein canfyddiadau penodol yn hyn o beth o dan y pennawd 'Cadw Cofnodion' yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y trefniadau ymweld yn y gwasanaeth yn galluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd yn unol â'u dymuniadau.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda rheolwyr ynghylch y defnydd o drefniadau 'tynnu yn ôl' ar adegau pan fo cleifion yn peri risg i'w hunain neu i eraill. Rhoddwyd sicrwydd llafar yn yr arolygiad ynghylch sut yr oedd trefniadau o'r fath yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu hwyluso. Rhoddwyd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol i ni hefyd yn syth ar ôl yr arolygiad, a oedd yn dangos bod gan y staff fynediad at rai canllawiau ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud mewn amgylchiadau o'r fath. Fodd bynnag, o edrych ar

¹ Nod ddeddfwriaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid 2009 yw gwneud yn siŵr bod pobl mewn ysbytai, tai â chymorth neu gartrefi gofal ddim ond yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd ddiogel a dim ond pan fo er budd pennaf yr unigolyn ac nad oes unrhyw ffordd arall o ofalu amdano.

gofnodion cleifion, nid oedd yn gwbl eglur a oedd y defnydd o drefniadau 'tynnu yn ôl' yn cael ei gefnogi gan ddatganiadau galluedd a budd pennaf unigol. Ni allem ddod o hyd i dystiolaeth chwaith o ganllawiau penodol o ran pryd y dylai'r staff gynorthwyo unigolion, mewn man diogel oddi wrth bobl eraill. Hefyd, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth wedi'i chofnodi o amlder, hyd ac effeithiolrwydd trefniadau 'tynnu yn ôl'. Roedd yr uchod yn golygu na allem fod yn siŵr bod hawliau'r cleifion yn cael eu hwyluso bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod y defnydd o drefniadau tynnu yn ôl yn y dyfodol yn cael eu defnyddio, eu cofnodi, eu monitro a'u gwerthuso'n briodol er mwyn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu hwyluso bob amser.

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3- Gwrando a Dysgu o Adborth)

Nid oedd unrhyw ddull ffurfiol ar waith ar gyfer gofyn am sylwadau gan unigolion a/neu eu teuluoedd am wasanaethau a dderbyniwyd ar adeg ein hymweliad â'r gwasanaeth. Fe'n hysbyswyd bod ffordd o gael gafael ar adborth o'r fath newydd gael ei datblygu (sef holiaduron Ffrindiau a Theulu) ar gyfer gwasanaethau anabledydd dysgu ac yn cael ei phrofi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw awgrym pryd neu pa un a fyddai'r fenter hon yn cael ei chyflwyno yn y gwasanaeth hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am sut y mae'n bwriadu grymuso cleifion a'u teuluoedd/cynrychiolwyr i ddisgrifio eu profiadau o wasanaethau ar sail barhaus. Mae hyn gyda'r nod o wrando ar adborth a dysgu ohono er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a ddarperir.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Er bod y staff yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, canfuwyd gennym fod angen nifer o welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau, ac nid oedd rhai ohonynt o dan reolaeth y tîm staff uniongyrchol.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1- Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)

Craffwyd ar gynnwys cofnodion dau glaf a chanfuwyd gennym nad oedd unrhyw asesiadau risg ar waith yng nghyswllt eu bywydau beunyddiol yn yr amgylchedd gofal uniongyrchol neu o ran cael mynediad at gyfleusterau cymunedol drwy'r drafnidiaeth sydd ar gael. Roedd y materion hyn yn golygu ei bod yn bosibl bod agweddau ar anghenion cleifion wedi newid ac nad oeddent wedi cael eu cofnodi na'u hystyried gan y staff sy'n gofalu amdanynt. Hefyd, efallai na thynnwyd sylw staff meddygol/staff perthnasol arall at newidiadau o'r fath.

O'r herwydd, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd gan AGIC. Roedd hyn yn golygu bod gan y bwrdd saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC am unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd, i roi sylw i'r materion a ddisgrifiwyd. Ers hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi ymateb i AGIC ac mae ei gynnwys wedi rhoi sicrwydd digonol i ni bod camau prydlon a phriodol wedi eu cymryd.

Gwelsom fod sylweddau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn bresennol mewn coridor ac yn yr ystafell golchi dillad. Gwelsom hefyd sylweddau fel plaladdwyr wedi eu storio ar silffoedd agored yn y brif ystafell golchi dillad. Roedd hyn yn golygu bod perygl y byddai'r cleifion yn eu llyncu, neu y byddent yn cyffwrdd â'u croen yn amhriodol.

Hefyd, canfuwyd y canlynol gennym yn ystod taith o gwmpas y safle:

- Roedd safle'r gwasanaeth yn gynnes iawn ar ddiwrnod ein harolygiad ac roedd rhaid i'r staff ddefnyddio ffannau cludadwy i gadw'r cleifion yn gyfforddus. Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd gan y gwasanaeth unrhyw ffordd o addasu tymheredd yr amgylchedd gan fod hyn yn cael ei wneud yn ganolog o Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr

- Teils wedi'u difrodi yn un o'r toiledau (hyd at ymyl ffenestr). Roedd y teil ar y pen yn arbennig o finio a byddai wedi achosi anaf i glaf neu aelod o staff o'i gyffwrdd.
- Roedd holl ddodrefn yr ardd mewn cyflwr gwael iawn ac roedd un o'r byrddau yn cael ei ddal i fyny gan ddau ddarn o waith cerrig. Ystyriwyd bod hyn yn beryglus
- Nid oedd polyn llenni yn ystafell wely un claf, gan nad oedd wedi cael ei ddisodli yn dilyn difrod yn yr wythnosau yn arwain at yr arolygiad hwn
- Roedd staff wedi hysbysu bod un o'r toiledau'n ddiffygiol ac nad oedd modd tynnu'r dŵr (tua phedair wythnos cyn ein hymweliad). Ni wnaed unrhyw waith atgyweirio ac roedd calf yn parhau i'w ddefnyddio gan nad oedd yn deall nad oedd yn gweithio'n iawn
- Roedd cyfyngwyr ffenestr ar rai o'r ffenestri er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd cyfyngwyr wedi eu gosod ar ffenestri eraill ac felly roeddent yn agor yn llydan, a allai alluogi i unigolyn adael yr adeilad heb awdurdod. Ni chynigiwyd unrhyw reswm i ni am hyn

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch. Mae hyn er mwyn darparu amgylchedd byw diogel i'r cleifion ac amgylchedd gweithio diogel i'r staff.

Canfuwyd gennym fod offer dadebru brys ar gael yn y gwasanaeth i'w ddefnyddio pe bai argyfwng (ymgwympiad) ymhlith y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y nyrs a oedd yn gyfrifol ar fore ein harolygiad yn ymwybodol bod yr offer yn cael ei storio yn yr ystafell feddyginiaethau. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd yr un o'r tîm staff wedi cael eu hyfforddi i'w ddefnyddio. Hefyd, nid oedd nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd diweddar. Er nad fu unrhyw ddigwyddiadau hyd yn hyn lle'r oedd gofal claf wedi cael ei beryglu o ganlyniad i'r offer brys a oedd ar gael, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r mater hwn. Ceir rhagor o fanylion am y mater uchod a materion hyfforddiant staff eraill yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

Hefyd, fe'n gwnaed yn ymwybodol nad oedd yr un o'r staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar anaffylacsis, dadebru cardio-pwlmonaidd a rheoli tagu. Caiff y mater o hyfforddiant staff ei archwilio ymhellach yn adran Ansawdd

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn gan fod y canfyddiad hwn wedi arwain at yr angen am welliant.

Cadarnhaodd taith o gwmpas y safle bod y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. (Safon 2.4- Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi)

Ni archwiliwyd y safon iechyd a gofal hon yn fanwl yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, canfuwyd y canlynol gennym:

- Nid oedd unrhyw staff cadw tŷ wedi eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. O ganlyniad, roedd gan y staff restr helaeth o dasgau cartref i'w cwblhau yn ystod y dydd a'r nos, a nodwyd gan y staff bod hyn yn lleihau faint o amser yr oeddent yn gallu ei dreulio gyda'r cleifion
- Nid oedd unrhyw lieiniau papur na dalwyr mewn mannau hollbwysig fel ystafelloedd ymolchi a thoiledau
- Gwelsom ddeunydd ysgarthol ar wal ystafell wely un claf ar fore ein harolygiad
- Roedd sofa gartref wedi ei lleoli mewn ystafell ymolchi
- Roedd bagiau bin domestig yn y biniau a weithredir â throed yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi, yn hytrach na bagiau gwastraff clinigol
- Nid oedd unrhyw uned lanweithiol ar gyfer cael gwared ar eitemau hylendid benywaidd

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau i'w cymryd i sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn cael ei gynnal a'i lanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau ac yn sicrhau cyn lleied o heintiau â phosibl. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod y staff a gyflogir i ddarparu gofal yn cymryd rhan lawn yn y broses o atal a rheoli heintiau.

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er

mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 Maethiad a Hydradiad)

Ceir cegin y gall y cleifion ei defnyddio (gyda chymorth y staff) i baratoi diodydd a chael mynediad at fyrbrydau a phrydau trwy gydol a dydd a min nos. Caiff prydau bwyd y defnyddwyr gwasanaeth eu paratoi gan aelodau o'r tîm staff yn yr un fan honno. O edrych ar gynnwys yr oergell a'r cypyrddau, roedd yn ymddangos bod digon o wahanol fwyd ar gael.

Canfuwyd gennym fod cleifion ag anawsterau llyncu yn cael eu hasesu gan therapydd lleferydd ac iaith. Gwelsom hefyd fod diodydd un claf yn cael eu tewychu i drwch a bennwyd gan y therapydd lleferydd ac iaith er mwyn sicrhau y gallai lyncu hylifau yn ddiogel.

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau)

Nid oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio o ran agweddau ar ganllawiau rheoleiddio a phroffesiynol yn gysylltiedig â rheoli meddyginiaethau. Mae hyn oherwydd i ni nodi'r angen am welliannau i'r canlynol:

- Roedd anadlydd a siambr aer claf (ar gyfer rhoi meddyginiaeth asthma) wedi eu storio ar ben y cwpwrdd meddyginiaethau. Roedd angen glanhau'r siambr aer ac nid oedd y gorchudd wedi cael ei roi ar yr anadlydd a oedd yn golygu ei fod yn agored i lwch
- Roedd eli hydradu'r croen hefyd wedi ei storio ar ben y cwpwrdd meddyginiaethau. Roedd hwn wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn
- Roedd yr 'ystafell' feddyginiaethau yn fach iawn, yn anniben ac yn boeth. Gallai hyn gael effaith andwyol ar feddyginiaeth presgripsiwn ac atchwanegiadau bwyd y mae angen eu storio o fewn tymheredd penodol
- Datgelodd archwiliad o'r tu mewn i'r cwpwrdd meddyginiaethau bod angen ei lanhau

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am sut y bydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau rheoleiddio a phroffesiynol a chyda chanllawiau'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.

Canfuwyd o archwilio cofnodion un o'r cleifion ei fod yn derbyn ei feddyginiaeth presgripsiwn trwy ddulliau cudd gan fod yr unigolyn dan sylw yn aml yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth (a fyddai wedi cael effaith negyddol ar ei iechyd a'i les). Roeddem yn gallu cadarnhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol wedi bod yn rhan o'r penderfyniad hwn a ystyriwyd fel dewis olaf.

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg. (Safon 2.7- Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg)

Cadarnhaodd trafodaethau a gafwyd gyda rheolwr yr uned na fu angen i'r tîm wneud unrhyw atgyfeiriadau at y tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant parhaus ar y pwnc hwn. Roedd hyn yn golygu efallai nad yw rhai aelodau o'r tîm wedi eu hyfforddi'n ddigonol i adnabod a gweithredu ar broblemau a phryderon neu rannu gwybodaeth berthnasol am les a diogelwch cleifion. Caiff y mater o hyfforddiant staff ei archwilio'n fwy llawn yn adran nesaf yr adroddiad hwn, 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth'.

Dynododd archwiliad o gofnodion gofal cleifion bod gan y tîm staff ddealltwriaeth dda o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 o ran Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Gofal effeithiol

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2- Cyfathrebu'n Effeithiol)

Canfuwyd gennym fod y tîm staff yn rhoi pwyslais ar ddarganfod cymaint ag y gallent am fywydau pob claf yn y gorffennol a'r presennol. O ystyried eu hanawsterau cyfathrebu cymhleth, gwnaed hyn yn rhannol trwy gyfathrebu a'u teuluoedd, eu cynrychiolwyr a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill.

Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu

Canfuwyd gennym yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd cofnodion cleifion bob amser yn darparu cyfeiriad eglur a manwl at agweddau ar anghenion, dymuniadau neu ddewisiadau beunyddiol cleifion.

Canfuwyd gennym hefyd mai prin oedd y wybodaeth yn ffeiliau'r cleifion am benderfyniadau budd pennaf a galluedd meddyliol cleifion i wneud eu penderfyniadau eu hunain am agweddau penodol ar eu gofal. Hefyd, ni allem ganfod unrhyw gofnod eglur o ran a oedd perthnasau/cynrychiolwyr neu eiriolwyr cleifion wedi cymryd rhan mewn adolygiadau o'u gofal.

Gwelsom fod dogfennau cleifion yn ddarniog yn gyffredinol. Yn fwy penodol, roedd angen ystyried gwybodaeth mewn sawl ffeil ar wahân (ar gyfer pob claf), o ran eu hanghenion, eu dymuniadau a'i dewisiadau beunyddiol, eu statws Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a chanlyniad cyfarfodydd amlddisgyblaeth misol. Hefyd, nid oedd gwybodaeth o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth i ddiweddarau cynlluniau gofal cleifion ac roedd diffyg manylion yng nghofnodion y cleifion.

Roedd hyn oll yn golygu efallai nad oedd y staff wedi derbyn digon o fanylion i'w cynorthwyo i ddarparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion.

O'r herwydd, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd gan AGIC. Roedd hyn yn golygu bod gan y bwrdd saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC am unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd, i roi sylw i'r materion a ddisgrifiwyd. Ers hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi ymateb i AGIC ac mae ei gynnwys wedi rhoi sicrwydd digonol i ni bod camau prydlon a phriodol wedi eu cymryd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym fod niferoedd annigonol o staff nyrsio cofrestredig yn gweithio yn y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad hwn. Roedd hyn oherwydd dwy swydd nyrs gofrestrdig wag, y defnydd o aelod presennol o staff i gynorthwyo claf ar sail un i un (heb gyllid ychwanegol) a rhai achosion o salwch staff hirdymor. Er y cydnabyddir bod gan y bwrdd iechyd broses ffurfiol ac wedi'i hen sefydlu yn gyffredinol ar gyfer rheolaeth gyffredinol lefelau staffio diogel (a oedd â'r nod o ddarparu'r staff wrth gefn gorau posibl bob amser), mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staff a chymysgedd sgiliau'n cael eu hadolygu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

Roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y staff wedi derbyn gwerthusiad blynyddol o'u gwaith a oedd yn cynnwys rheolwr yr uned. Byddai trefniadau o'r fath wedi cynnig y cyfle i drafod effeithiolrwydd hyfforddiant a dderbyniwyd ac i benderfynu pa sgiliau allweddol eraill oedd eu hangen yn y dyfodol i gynorthwyo staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Datgelodd sgysiau gyda rheolwr yr uned ac uwch reolwyr y bu newid sylweddol i bersonél rheoli yng ngwasanaethau Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Canfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i redeg gan staff a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yn fwy penodol, dangosodd trafodaethau a gafwyd gydag aelodau'r tîm staff a rheolwr yr uned eu bod yn ymwybodol o broblemau yn y gwasanaeth yr oedd angen eu datrys a bod ganddynt ymrwymiad eglur i fynd i'r afael â'r rheini. Roedd hyn er mwyn codi safon y gofal a'r cymorth i gleifion.

Datgelodd sgysiau gyda'r staff eu bod yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o ddydd i ddydd yn gyffredinol.

Datgelodd sgysiau gydag uwch reolwyr y bu newid sylweddol i bersonél rheoli yng ngwasanaethau Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Nid oedd y gwasanaeth yn gallu rhoi unrhyw gopiâu o unrhyw weithgarwch archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ni. Fodd bynnag, gwnaeth yr uwch reolwyr ni'n ymwybodol o'r dyddiadau pan fydd ymweliadau haparchwilio yn cael eu cynnal gan staff y bwrdd iechyd yn ystod y misoedd nesaf, ym mhob un o'r naw gwasanaeth anabledau dysgu preswyl a weithredir ac a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Hefyd, rhoddwyd copi gwag i ni o'r dogfennau a fydd yn cael eu defnyddio i gwblhau archwiliadau Safonau Iechyd a Gofal misol y disgwylir iddynt gychwyn yn y dyfodol agos.

Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw bolisi gweithredol na chanllawiau tebyg ar waith i bennu cyfeiriad y gwasanaeth penodol hwn. Roedd hyn yn golygu bod diffyg eglurder cyffredinol o ran systemau llywodraethu mewnol a sicrhau ansawdd a phrosesau i lywio staff wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Canfuwyd gennym hefyd bod angen cryfhau'r cydweithrediad rhwng uwch reolwyr y bwrdd iechyd a'r tîm staff yn y gwasanaeth hwn. Roedd hyn fel ffordd o hybu arloesedd, gwella darpariaeth y gwasanaeth a chynllunio adnoddau yr oedd eu hangen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad eglur i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith i lywio a chefnogi'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r safonau sy'n datgan bod trefniadau o'r fath yn hanfodol ar gyfer y ddarpariaeth gynaliadwy o ofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rhoddodd yr uwch reolwyr amlinelliad cryno i ni o sut yr oedd y bwrdd iechyd yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol perthnasol i archwilio, cynllunio a darparu modelau gwasanaeth yn y dyfodol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cyd-fynd yn y ffordd orau â'r anghenion, dewisiadau a dymuniadau a nodwyd gan unigolion sy'n derbyn gofal, triniaeth a chymorth preswyl anabledau dysgu. Fe'n hysbyswyd hefyd y byddai'r darn cymhleth hwn o waith, (y byddai'n rhaid ei wneud dros y ddwy flynedd nesaf) yn cynnwys cleifion, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen. (Safon 7.1-Gweithlu)

Canfuwyd gennym ar adeg ein harolygiad bod y gwasanaeth yn ceisio cynnal y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion yng ngoleuni rhai achosion o salwch staff

hirdymor, dwy swydd nyrs gofrestrdig wag a dwy swydd gweithiwr cymorth wag.

Datgelodd trafodaethau gyda'r uwch reolwyr bod y bwrdd iechyd eisoes wedi cymryd camau i lenwi'r swyddi gwag yn y dyfodol agos. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy recriwtio 15 o nyrsys newydd gymhwysu a fyddai'n cychwyn swydd newydd o fewn y pedwar mis nesaf a thrwy ddefnyddio 'banc' nyrsys y bwrdd iechyd ehangach i sicrhau bod digon o staff ar gael i ofalu am y cleifion.

Gwelsom fod y staff yn brysur iawn trwy gydol diwrnod yr arolygiad. O gofio'r amrywiaeth eang o anghenion y cleifion, ynghyd â chanfyddiadau cyffredinol ein harolygiad, roedd arwyddion nad oedd lefelau staffio yn ddigonol bob amser. Datgelodd sgysrsiau gyda rheolwr yr uned hefyd bod y tîm staff wedi cynyddu nifer y staff sydd ar ddyletswydd yn y dydd a'r nos yn y misoedd diwethaf i ddarparu gofal a chymorth i glaf yr oedd ei iechyd wedi dirywio ac yr oedd ei anghenion yn fwy cymhleth a heriol. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gyllid/adnoddau staff ychwanegol i leddfu'r sefyllfa honno; yn hytrach, roedd rheolwr yr uned wedi gwneud pob ymdrech i ddefnyddio aelodau o'r tîm presennol. Yn sgil hynny, galwyd ar y tîm staff yn aml i gyflawni dyletswyddau goramser a allai gael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod digon o staff ar gael bob amser i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion y cleifion.

Roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd nifer o staff wedi gallu cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi gorfodol/penodol i gleifion oherwydd yr angen iddynt fod yn bresennol yn y gwasanaeth. Yn fwy penodol, canfuwyd gennym nad oedd nifer o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar y pynciau canlynol:

- Anaffylacsis a dadebru gyda rheoli tagu
- Diogelu oedolion
- Atal a rheoli heintiau
- Iechyd, diogelwch a lles
- Dulliau o ymdrin â thrais ac ymddygiad ymosodol

Roedd hyn yn golygu efallai nad oedd y staff yn ymwybodol o'r arfer mwyaf cyfredol i'w cynorthwyo yn eu gwaith ac i gadw cleifion yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol a phenodol i gleifion parhaus. Mae hyn er mwyn datblygu gweithlu diogel â sgiliau priodol.

Datgelodd trafodaethau gyda rheolwr yr uned nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfodydd perthnasol rheolwyr y bwrdd iechyd ers cryn amser. Hefyd, roedd yn ofynnol iddo weithio fel aelod o'r tîm darparu clinigol yn rheolaidd a phrin oedd y cyfle iddo weithio yn y gwasanaeth mewn swyddogaeth ychwanegol. Mae hyn yn golygu mai prin oedd yr amser oedd ganddo i arwain a rheoli'r gwasanaeth a defnyddio ei sgiliau nyrsio helaeth i gynorthwyo'r tîm staff.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd gan y gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i ddatblygu cynlluniau datblygiad personol nac i gynnal gwerthusiadau blynyddol staff. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i reolwr yr uned. O ganlyniad, nid oedd unrhyw gyfleoedd i asesu effeithiolrwydd unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd a phenderfynu pa sgiliau allweddol pellach oedd eu hangen i gynorthwyo holl aelodau'r tîm yn eu gwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledau dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y gwasanaeth anabledau dysgu preswyl GIG hwn yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anabledau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Anabledau Dysgu: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Cyfeirnod 16010

Dyddiad yr Arolygiad: 2 Mehefin 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p><u>SICRWYDD AR UNWAITH</u></p> <p><u>Canfyddiadau'r arolygiad</u></p> <p>Datgelwyd y canlynol o graffu'n ofalus ar sampl o ddau gofnod ac ystyriaeth o rywaint o'r cynnwys mewn tri arall:</p> <p>Roedd tystiolaeth gyfyngedig ac anghyson o asesiadau risg o'r gorffennol neu'r presennol o ran agweddau allweddol ar drefniadau byw cleifion o ddydd i ddydd yn Llety Newydd, ac ar adegau pan gawsant eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleusterau cymunedol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol oddi ar y safle. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu hybu bob amser fel sy'n ofynnol.</p> <p>Er bod cynlluniau gofal a argraffwyd ymlaen llaw ar waith, nid</p>		<p>Bydd adolygiad o bob Cynllun Ymddygiad Cadarnhaol yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau y nodir risgiau yn y rhain, ynghyd â chynlluniau rheoli eglur yn nodi cysylltiadau â gweithgareddau yn yr uned a'r holl weithgareddau oddi ar yr uned.</p> <p>Bydd adolygiad o bob asesiad risg arall sy'n ymwneud â gweithgareddau byw beunyddiol yn</p>	<p>Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Wendy Williams</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 17 Mehefin 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>oeddent yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd bob amser. Roedd manylion cyfyngedig hefyd yn rhai o'r cynlluniau gofal o ran y ddarpariaeth o ofal (yn unol â chynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol wedi'u cwblhau. Ni allem gadarnhau felly a oedd y tîm staff yn cael eu llywio'n briodol i gynorthwyo cleifion yn unol â'u hanghenion presennol</p> <p>Nid oedd cofnodion y cleifion yn dynodi sut yr oedd cleifion a'u teuluoedd/cynrychiolwyr wedi cymryd rhan mewn adolygiadau o'u gofal, fel sy'n ofynnol o dan y Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Roedd dogfennau cleifion yn ddarniog. Yn fwy penodol, roedd angen ystyried gwybodaeth mewn sawl ffeil ar wahân (ar gyfer pob claf) o ran eu hanghenion, eu dymuniadau a'u dewisiadau beunyddiol, eu statws Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a chanlyniad cyfarfodydd amlddisgyblaeth misol. Hefyd, nid oedd gwybodaeth o gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth yn cael ei defnyddio i ddiweddarau cynlluniau gofal cleifion. Roedd hyn oll yn golygu efallai nad oedd y tîm staff wedi derbyn canllawiau cyfredol ar sut i ddarparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion sy'n preswyllo yn Llety Newydd</p> <p>Craffwyd ar gynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yng nghofnodion dau o gleifion. Canfuwyd bod un yn gynhwysfawr tra bod diffyg gwybodaeth ddigonol am ddewisiadau'r unigolyn yn y llall. Hefyd, nid oedd yr un o'r ddau gynllun wedi ei ddyddio a'i lofnodi.</p>		<p>cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y rhain yn gyffredinol ac yn adlewyrchu lefel y risg gyda phob claf unigol.</p> <p>Archwiliad cynhwysfawr o ddogfennau i gael ei gwblhau gan gynnwys adolygiad o bob Cynllun Gofal a Thriniaeth, Cynlluniau Ymddygiad Cadarnhaol, a chynlluniau gofal wedi'u personoli, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gyfredol, yn adlewyrchu anghenion a nodwyd ac yn cael eu deall gan yr holl staff o ran gweithrediad.</p> <p>Bydd pob asesiad cleifion unigol, Cynlluniau Gofal a Thriniaeth, Cynlluniau Ymddygiad Cadarnhaol yn cael eu rhannu gyda'r cleifion a chydag aelodau teulu perthnasol pan nad yw'r galluedd gan y claf.</p>	<p>Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Wendy Williams</p> <p>Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Wendy Williams.</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 17 Mehefin 2016</p> <p>Cwblhawyd erbyn 31 Gorffennaf 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>Nid oeddent yn cynnwys dyddiadau ar gyfer adolygu chwaith. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu penderfynu a oedd cynnwys y cynlluniau yn dal i fod yn berthnasol i'r unigolion dan sylw</p> <p>Gwelsom gyfeiriad at apwyntiadau un claf o ran triniaeth traed a gofal deintyddol. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i wybodaeth ysgrifenedig o ran a oedd yr apwyntiadau hynny wedi cael eu mynychu neu eu had-drefnu. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd y claf wedi cael ei alluogi i dderbyn gofal a thriniaeth a nodwyd. Er i sicrwydd llafar gael ei roi (ar ddiwrnod yr arolygiad gan y nyrs gyfrifol), bod materion o'r fath dan reolaeth a/neu wedi cael eu cwblhau, nid oedd staff a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn ar adeg ein harolygiad yn ymwybodol o statws yr apwyntiadau meddygol hynny.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella/sicrhau</p> <p>Mae AGIC angen manylion y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i ddarparu cofnodion cywir, cyfredol, cyflawn a chyfoes bob amser. Mae hyn er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth ddiogel ac effeithiol o ofal a chymorth i gleifion mewn ymateb uniongyrchol i'w anghenion cymhleth sy'n newid.</p> <p>(Safon Iechyd a Gofal 3.5)</p>		<p>Bydd tystiolaeth o'r broses hon a'u cyfranogiad yn eu hasesiadau a'u gofal yn cael eu cofnodi yn y nodiadau ac yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio'r ffurflen archwilio sydd ynghlwm</p> <p>Datblygiad un ffeil i gleifion a fydd yn cynnwys asesiad cynhwysfawr, Adroddiad Asesu Ymddygiad, Cynllun Ymddygiad Cadarnhaol, Cynllun Gofal a Thriniaeth, cynlluniau gofal wedi'u personoli, taflenni gwerthuso dyddiol a thafleni gwerthuso cynllun gofal. Bydd y rhain yn cynnwys manylion o adolygiadau misol y Tîm Aml-ddisgyblaeth i'w cynnwys yn y cynlluniau gofal a'r taflenni gwerthuso.</p> <p>Ffeil sampl i gael ei datblygu a'i rhannu gyda phob uned cleifion mewnol ym maes Anableddau Dysgu i sicrhau cysondeb yn y</p>	<p>Rheolwr yr Uned John Lang</p> <p>Rheolwyr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl ac Asesu, Wendy Williams, Diane Gray. Nyrs Arweiniol Glinigol Dros Dro Maria Anderton</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 31 Gorffennaf 2016</p> <p>17 Mehefin 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>gwasanaeth.</p> <p>Adolygiad 15 pwynt wedi'i gynllunio i gael ei dynnu ymlaen i'r uned i gael ei gwblhau.</p> <p>Cymorth cymheiriaid gan reolwyr unedau preswyl eraill i gael ei gyflwyno lle mae'r broses ddogfennau wedi cael ei hategu gan adolygiadau diweddar</p> <p>Archwiliad dogfennau cynhwysfawr i gael ei gwblhau a fydd yn adolygu pob Cynllun Ymddygiad Cadarnhaol a chynllun gofal wedi'i bersonoli, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion a nodwyd.</p> <p>Cadarnhad bod asesiad deintyddol wedi ei gwblhau gan y deintydd ar gyfer y claf hwn a'i fod yn aros am</p>	<p>Nyrs Arweiniol Glinigol Dros Dro Maria Anderton</p> <p>Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Wendy Williams</p> <p>Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Wendy</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 17 Mehefin 2016</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>driniaeth a gynlluniwyd o dan anesthetig cyffredinol.</p> <p>Cadarnhad bod triniwr traed wedi bod i'r uned ac wedi cwblhau asesiad a thriniaeth o'r claf hwn. Cwblhawyd adolygiad arall hefyd gan feddyg teulu'r claf a dechreuwyd triniaeth gwrthfotigau. Mae'r manylion hyn wedi cael eu cynnwys erbyn hyn yn nogfennau a chynllun gofal y claf, a luniwyd ar gyfer bys troed heintiedig.</p>	Williams, Rheolwr yr Uned, John Lang	
Ansawdd profiad y claf					
7	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod rhaglenni gweithgareddau cymdeithasol wedi eu cynllunio a'u strwythuro yn cael eu dilyn fel ffordd o gynorthwyo pobl i fod yn iach ac yn hapus ac i fyw bywyd gweithgar.	1.1	Mae adolygiad o gynlluniau gofal pob claf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a fydd yn sicrhau bod eu hanghenion cymdeithasol yn cael eu nodi'n eglur yn y rhain. Bydd hyn yn sicrhau bod rhaglenni gweithgareddau'n cael eu cofnodi yn eu nodiadau lle'n briodol a bydd tystiolaeth eglur o ddogfennau'n	Rheolwr yr Uned a Nyrs Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl.	30 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			ymwneud ag adolygu'r agwedd hon ar eu cynlluniau yn amlwg.		
7	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl gleifion wedi derbyn eu harchwiliadau blynyddol gan feddyg teulu.	1.1	Cwblhawyd archwiliadau blynyddol ar gyfer y cleifion yn yr uned ar 1 Tachwedd 2015 ac eithrio un claf nad oedd yno ar y pryd. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i gwblhau'r archwiliad iechyd hwn. Bydd tystiolaeth fod y rhain wedi eu cwblhau yn cael eu cofnodi'n fwy eglur yn nodiadau cleifion yn y dyfodol.	Rheolwr yr Uned a Nyrs Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl	Cwblhawyd
8	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad llawn i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod poen cleifion yn cael ei asesu a'i fonitro. Mae hyn fel bod y cleifion yn cael eu helpu i fod mor gyfforddus a rhydd o boen â phosibl.	4.1	Dosbarthwyd offerynnau poen safonol i sicrhau bod unedau'n defnyddio'r rhain ar gyfer asesu a rheoli poen. Y DISDAT ac offeryn poen Abbey yw'r rhain. Bydd adolygiad o briodoldeb yr offerynnau hyn yn cael ei gwblhau gan ar weinydd nyrsio ar gyfer Cyswllt Iechyd. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â chlinigwyr eraill yn y gwasanaeth.	Rheolwr yr Uned a Nyrs Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl. Nyrs Ymgynghorol	31st Gorffennaf 2016 30 Medi 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
8	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau na all unrhyw unigolion heb awdurdod weld delweddau teledu cylch cyfyng.	4.1	Bydd camau'n cael eu cymryd i leoli'r monitor ar gyfer y system teledu cylch cyfyng mewn lle sy'n hygyrch i staff yn unig er mwyn sicrhau nad yw preifatrwydd cleifion yn cael ei beryglu.	Rheolwr yr Uned, y Nyrs Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl a'r Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Awst 2016
9	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion personol cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.	4.1	Gwnaed staff yn yr uned yn ymwybodol o Bolisi'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli a storio cofnodion cleifion cyfrinachol a bydd yn sicrhau bod nodiadau pob claf yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau wedi eu cloi ac nad yw gwybodaeth cleifion ar hysbysfyrddau yn y swyddfa nyrsio yn rhwydd i bobl eraill ei weld.	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, a Rheolwr yr Uned	31 Gorffennaf 2016.
11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod y defnydd o drefniadau tynnu yn ôl yn y dyfodol yn cael eu defnyddio, eu cofnodi, eu monitro	6.2	Mae'r Polisi Anableddau Dysgu ar Ymatebion Diogel a Therapiwtig i Ymddygiad Trwblus wedi cael ei gymeradwy yn ein gwasanaeth erbyn hyn. Byddwn yn sicrhau nawr bod y staff yn ymwybodol o'r	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro a	30 Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	a'u gwerthuso'n briodol er mwyn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu hwyluso bob amser.		manylion yn y polisi hwn, gofynion y polisi o ran ei weithrediad a'i gofnodi gan ddefnyddio'r dogfennau yn yr atodiadau yn y polisi hwn. Bydd hyn yn sicrhau y bydd hawliau cleifion yn cael eu sicrhau o ran pob agwedd ar hyn. Bydd gan gleifion gynllun gofal wedi'i bersonoli ar gyfer gweithredu'r polisi hwn os bydd yn briodol i'w hanghenion a nodwyd.	Rheolwr yr Uned.	
11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am sut y mae'n bwriadu grymuso cleifion a'u teuluoedd/cynrychiolwyr i ddisgrifio eu profiadau o wasanaethau ar sail barhaus. Mae hyn gyda'r nod o wrando ar adborth a dysgu ohono er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a ddarperir.	6.3	<p>Mae'r ffurflenni adborth teulu a ffrindiau wedi cael eu dosbarthu gyda chanllawiau ar gyfer casglu a chyflwyno gan Arweinydd a nodwyd pob Uned Gyflawni i bob rheolwr uned. Mae'r rhain yn cael eu casglu nawr ac mae adborth ar gael i dimau gymryd camau ar eu sail bob mis.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae cynllun peilot parhaus o arolwg Ffrindiau a Theulu y Bwrdd Iechyd yn cael ei gwblhau mewn tair ardal gyda'r Uned Gyflawni Iechyd Meddwl a Dysgu gyda'r nod o brofi priodoldeb yr offeryn hwn ac yna gwneud</p>	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro a Rheolwr yr Uned.	30 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			diwygiadau i hyn i'w wneud yn fwy perthnasol i'n gwasanaeth er budd y cleifion a'r teuluoedd. Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot hwn, bydd yr arolwg yn cael ei gyflwyno ym mhob un o'n hunedau yn ein lleoliadau cleifion mewnol.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
13	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch. Mae hyn er mwyn darparu amgylchedd byw diogel i'r cleifion ac amgylchedd gweithio diogel i'r staff.	2.1	Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau bod yr holl sylweddau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn cael eu storio yn unol â'r rheoliadau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed yn cael ei achosi i unrhyw glaf. Mae'r ystafell golchi dillad wedi ei chloi a gall y cleifion gael mynediad at hon gyda goruchwyliaeth gan y staff. Archebwyd dodrefn gardd newydd ar gyfer yr uned.	Rheolwr yr Uned a Nyrs Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl. Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro Rheolwr Cyffredinol	Cwblhawyd Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Datblygu cynllun uwchgyfeirio ar gyfer pob cais cynnal a chadw a blaenoriaethau ceisiadau yn erbyn cyllidebau priodol</p> <p>Gwnaed cyllid cyfalaf ychwanegol ar gael gan y Bwrdd Iechyd i'w ddefnyddio ar gyfer gwelliannau i'r amgylchedd ar draws ein lleoliad cleifion mewnol. Mae bleinds ar gyfer yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely wedi cael eu blaenoriaethu o ran defnyddio'r arian hwn. Mae cynllun yn yr arfaeth gyda'r tîm Ystadau Cyfalaf i gwblhau'r gwaith hwn.</p>	<p>Cynorthwyol Dros Dro</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro</p>	<p>30 Mawrth 2017</p>
14	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau i'w cymryd i sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn cael ei gynnal a'i lanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau ac yn sicrhau cyn lleied o</p>	2.4	<p>Mae adolygiad o'r model presennol yn cael ei gwblhau ac mae'r Gwasanaethau Gwesty yn costio cynlluniau i gyflwyno swydd Cynorthwy-ydd Domestig/Cadw Tŷ yn yr uned â swyddogaeth benodol ar gyfer rhai o'r tasgau hyn.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro</p> <p>Rheolwr</p>	<p>31 Gorffennaf 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	heintiau â phosibl. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod y staff a gyflogir i ddarparu gofal yn cymryd rhan lawn yn y broses o atal a rheoli heintiau.		<p>Bydd adolygiad o'r amgylchedd yn cael ei gwblhau gan y Rheolwr Arweiniol a Nyrs Rheoli Heintiau'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r holl safonau ac arferion sy'n ymwneud â'r arfer hwn gyda'r nod o hyfforddi staff ar y gofynion a'r arferion y byddai angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y safonau'n bodloni'r deddfwriaeth.</p> <p>Mae'r broses o reoli gwastraff clinigol yn ein holl unedau cleifion mewnol wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gydag Arweinydd rheoli gwastraff y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gennym ni'r offer a'r prosesau priodol ar waith i reoli'r mater hwn yn ein holl unedau.</p>	<p>Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro a Rheolwr yr Uned.</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro</p>	<p>30 Awst 2016</p> <p>30 Awst 2016</p>
Tudalen 15	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am sut y bydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau rheoleiddio a	2.6	Mae'r Uned Gyflawni yn adrodd ar faterion o gydymffurfiaid â safonau'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau drwy'r strwythur llywodraethu rheoli meddyginiaethau. Mae hyn yn cynnwys systemau ar gyfer	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro a	30 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	phroffesiynol a chyda chanllawiau'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.		gweithredu a monitro safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Bydd yr holl reolwyr unedau yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r safonau hyn yng nghyfarfod rheolwyr mis Awst. Bydd cydymffuriad â safonau yn cael ei gynnwys yn rhan o gylch archwilio'r uned.	Rheolwr yr Uned.	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
19	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad eglur i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith i lywio a chefnogi'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r safonau sy'n datgan bod trefniadau o'r fath yn hanfodol ar gyfer y ddarpariaeth gynaliadwy o ofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Tîm gwella yn cynnwys Rheolwr Arweiniol y gwasanaeth a Nyrs Arweiniol Dros Dro i gychwyn gwaith uniongyrchol gyda'r rheolwr a'r tîm i gynorthwyo'r gwelliant cyffredinol o systemau gofal yn yr uned. Cynllun gwella tro mis i gael ei ddatblygu erbyn 30 Gorffennaf 2016 i gynorthwyo gyda hyn. Bydd y ddau uchod yn gweithio gyda'r arweinydd llywodraethu dros dro i hybu cyd-gynhyrchiad model integredig o ddysgu sefydliadol ar draws yr uned gyflawni a'r bwrdd iechyd. Bydd hyn yn dangos tystiolaeth o gylch parhaus o fyfyrto,	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro	Erbyn 30 Hydref 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>dysgu, newid a gwelliant ar draws yr uned gyflawni</p> <p>Y tîm llywodraethu i fesur perfformiad gweithredol yr uned yn erbyn y safonau adrodd ar gyfer adolygiad perfformiad yr uned gyflawni.</p> <p>Rheolwr yr uned i gynnal archwiliadau yn unol â'r cylch archwilio a gytunwyd ar gyfer yr unedau preswyl</p>		
20	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod digon o staff ar gael bob amser i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion y cleifion.	7.1	Cwblhawyd adolygiad o'r aciwtedd ar gyfer yr uned gan y Rheolwr Arweiniol ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y diffyg a nodwyd o ran nifer y staff ar gyfer yr uned yn cael sylw drwy'r adolygiad o'r system roster ac yna, os oes angen, adleoli staff o unedau eraill nad ydynt yn llawn.	Rheolwr Arweiniol ar gyfer yr unedau preswyl a'r Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	Erbyn 30 Awst 2016
21	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod staff yn derbyn	7.1	Mae adolygiad o'r holl hyfforddiant gorfodol a statudol ar gyfer pob aelod unigol o staff yn cael ei	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau	30 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hyfforddiant gorfodol a phenodol i gleifion parhaus. Mae hyn er mwyn datblygu gweithlu diogel â sgiliau priodol.		gwblhau er mwyn sicrhau bod cydymffurfiad priodol i sicrhau eu bod yn gyfredol o ran arfer a sgiliau.	Preswyl, Nyrs Arweiniol Dros Dro a Rheolwr yr Uned	
21	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.	7.1	Mae Adolygiad Datblygu Gwerthusiad Blynyddol Rheolwr yr Uned yn cael ei gwblhau gan y Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl. Bydd gan bob aelod arall o'r staff Adolygiad Datblygu Gwerthusiad Blynyddol cyfredol yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth ac anghenion unigolion.	Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Preswyl, Rheolwr yr Uned	30 Medi 2016

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dermot Nolan

Teitl: Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2016